Ebrill 2009

Mae'r Arglwydd Stephen A Carter, y Gweinidog dros Gyfathrebiadau, Technoleg a Darlledu, wedi penodi Dyfrig Jones fel Aelod o Awdurdod S4C. Bydd ei benodiad am bedair blynedd o 20 Ebrill 2009 i 19 Ebrill 2013.

Bywgraffiad
Mae Dyfrig Jones ar hyn o bryd yn darlithio yn yr Ysgol Astudiaethau Creadigol a'r Cyfryngau ym Mhrifysgol Bangor, yn arbenigo mewn Ymarfer a Theori'r Cyfryngau. O fis Tachwedd 2006 i Fawrth 2009 ef oedd golygydd cylchgrawn Barn, a chyn hynny bu'n gweithio fel cynhyrchydd-gyfarwyddwr gyda Ffilmiau'r Bont, wedi ei leoli yng Nghaernarfon.

Cefndir

1. Sefydlwyd S4C (Sianel Pedwar Cymru) i ddarparu ystod eang o raglenni amrywiol ac o ansawdd uchel yn y Gymraeg. Mae Awdurdod S4C yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau S4C a sicrhau bod S4C ac S4C Digidol yn cael eu darparu fel gwasanaethau cyhoeddus. Hefyd, mae'r Awdurdod yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau rheoli effeithiol, gan gynnwys rheolaeth ariannol, yn bodoli ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a masnachol S4C.

2. Y tâl presennol ar gyfer Aelodau Awdurdod S4C yw £9,370 y flwyddyn ar gyfer 1 diwrnod enwol yr wythnos.

3. Mae Dyfrig yn gynghorydd Plaid Cymru yn cynrychioli ward Gerlan ar Gyngor Gwynedd. Gwneir apwyntiadau ar deilyngdod ac nid yw gweithgaredd gwleidyddol yn chwarae rhan yn y broses dethol.